**Canolfan Geffylau Coleg Gwent**
**Campws Brynbuga**
**CG191: Telerau ac Amodau Llogi**

## Amodau Defnydd

Mae'r amodau defnydd canlynol yn berthnasol i unrhyw sefydliad neu unigolyn sydd yn dymuno llogi'r Ganolfan Geffylau. Mae marchogaeth yn gamp beryglus ac rydych chi'n cymryd rhan ar eich menter eich hun. Cymerwyd gofal dyledus i gynnal cyflwr diogel y cyfleusterau, ond rhaid i farchogion ddilyn y rheolau canlynol ac unrhyw gyfarwyddiadau posib a roddir.

## Termau ar gyfer pob archeb

1. Rhaid i sefydliad sydd yn llogi'r cyfleuster sicrhau bod ganddynt yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus gwerth o leiaf £5 mewn lle **(rhaid darparu copi o'r dystysgrif gyda'r cytundeb 'Telerau Llogi' wedi'i lofnodi).**
   1.1 Cyfrifoldeb y sefydliad sy'n llogi'r cyfleuster yw sicrhau bod gan unrhyw hyfforddwyr neu gyfarwyddwyr marchogaeth sydd yn defnyddio cyfleusterau Ceffylau Coleg Gwent yswiriant ar gyfer tiwtora ac ardystiad cymorth cyntaf dilys ar adeg llogi. Efallai y gofynnir i drefnwyr gyflwyno copi i Coleg Gwent.
2. Rhaid i sefydliad sydd yn llogi'r cyfleuster sicrhau bod ganddynt yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus gwerth o leiaf £1m mewn lle **(rhaid darparu copi o'r dystysgrif gyda'r cytundeb 'Telerau Llogi' wedi'i lofnodi).**
   2.1 I unigolion yng nghwmni hyfforddwr neu gyfarwyddwr: rhaid i gopi o dystysgrif yswiriant yr hyfforddwr neu gyfarwyddwr, tystysgrif gymorth cyntaf ddilys â'r cytundeb 'Telerau Llogi' gael eu cyflwyno a'u cymeradwyo cyn i'r hyfforddwr neu'r cyfarwyddwr weithredu ar y safle.
3. Anogwn yn arw bod pob llogwr unigol ac unrhyw un sydd yn mynychu digwyddiadau trefnedig feddu ar eu hyswiriant damwain a cheffylau eu hunain.
4. Rhaid i bob marchogwr dan 18 oed gael caniatâd gan riant.
5. Rhaid i bob marchogwr dan 18 oed fod yng nghwmni oedolyn cyfrifol.
6. Rhaid i bob llogwr fod yng nghwmni o leiaf un arall sydd yn gyfrifol mewn achos argyfwng.
7. Rhaid defnyddio'r cyfleusterau mewn modd synhwyrol sy'n cyd-fynd â phrofiad y marchog/marchogion a'r ceffyl neu ferlod.
8. Mae marchogwyr yn cymryd rhan ar eu menter eu hunain.
9. Mae hetiau marchogaeth (PAS015, EN1384), esgidiau marchogaeth neu esgidiau Jodhpur yn orfodol. Ni chaniateir mathau eraill o esgidiau.

10. Rhaid gadael pob cyfleuster a ddefnyddiwyd mewn cyflwr taclus a threfnus; codir tâl pellach ar gyfer unrhyw gyfleuster sydd wedi'i adael mewn llanast neu'n frwnt. Rhai codi baw a sbwriel a rhaid gadael yr ardal o gwmpas y man parcio yn daclus.
11. Y llogwr neu'r marchog sy'n gyfrifol am bob toriad a gwneir i offer, a chodir tâl amdanynt. Rhaid adrodd pob toriad i staff Canolfan Geffylau Coleg Gwent.
12. Rhaid cadw cŵn ar dennyn ar bob adeg.
13. Nid yw Coleg Gwent yn cymryd cyfrifoldeb am ladrad/difrod i eiddo trydydd parti. Ni ellir darparu cyfleusterau storio. Ar adegau pan fydd gan gyflogwyr ganiatâd i adael offer ar y safle, maent yn gwneud hynny'n gyfan gwbl ar eu menter eu hunain.
14. Ni ellir clymu ceffylau/merlod wrth gerbydau yn yr awyr agored a'u gadael ar eu pen eu hunain.
15. Rhaid i bob ceffyl allanol wedi cael brechiad rhag y ffliw ceffylau a bod gyda phasbortau ar gael ar gyfer archwiliadau rheolaidd.
16. Rhaid i logwyr gadw i'r slot amser a neilltuwyd iddyn nhw fel nad ydynt yn amharu ar unrhyw archebion eraill.
    16.1 Neilltuir archebion 30 munud ar ôl amser gorffen eu sesiwn er mwyn clirio unrhyw offer a gadael yr adeilad. Codir tal ar unrhyw amser a gymerir y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn unol â chyfraddau llogi.

I sicrhau bod arwyneb yr arena yn parhau i fod yn y cyflwr gorau posib, gofynnwn y canlynol:

17. Ni ddylid gadael ceffylau yn rhydd na'u hyfforddi yn rhydd yn yr arenâu.
18. Ni ddylid cymryd gwair neu fwyd i fodau dynol i mewn i'r arenâu
19. Gofynnwn i chi beidio â chlymu ceffylau yn yr arena na byth i'w gadael heb oruchwyliaeth

**Telerau Talu**

Mae archebion yn daladwy yn llawn ar adeg derbyn yr anfoneb.

Nodir cyfrannau llogi ar dudalen 3 y cytundeb hwn.

**Telerau Canslo**

Archebion llogi fesul awr – mae angen 24 awr o rybudd
Archebion ar gyfer digwyddiadau - mae angen 72 awr o rybudd

Gellir canslo apwyntiadau drwy e-bost: equine.events@coleggwent.ac.uk

Bydd methu â rhoi'r rhybudd priodol wrth ganslo yn arwain at angen talu'r gyfradd logi lawn.

**Telerau ychwanegol i'r rhai sydd yn trefnu archebion ar gyfer digwyddiadau:**
Diffinnir Digwyddiad fel menter fasnachol lle codir ffi mynediad ar gyfranogwyr am fynychu.

20. Rhaid i'r llogwr/trefnydd digwyddiad sicrhau y cwblheir asesiad risg priodol sy'n cwmpasu ei weithgareddau o fewn yr ardal geffylau. Rhaid cyflwyno copi o'r asesiad risg i Coleg Gwent, a lle bo'n briodol, enwau ei gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch, Cymorth Cyntaf a stiwardio parcio ceir. Rhaid i'r llogwr/trefnydd digwyddiad gyflwyno asesiad risg diwygiedig ar gais gan Coleg Gwent. Dylai'r llogwr/trefnydd digwyddiadau fod yn ymwybodol ei fod yn gyfrifol am Iechyd a Diogelwch ei farchogion, gwestai, anifeiliaid ac offer.
21. Gofynnwn i unrhyw unigolyn neu sefydliad sydd yn llogi ein cyfleusterau ar gyfer digwyddiad ddarparu ar gyfer cymorth cyntaf drwy gydol ei archeb. Nid yw Coleg Gwent yn darparu ar gyfer cymorth cyntaf.
22. Rhaid i'r llogwr sicrhau bod nifer o'r cyfranogwyr/ceisiadau ar gyfer digwyddiad yn cyd-fynd â chapasiti'r maes parcio sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau sydd ar gael ar hyn y bryd (30 cerbyd ceffylau ar y mwyaf) ar unrhyw un adeg.
23. Rhaid i'r llogwr gynnal cofnod manwl gywir o ymwelydd â'r safle sydd yn gysylltiedig â'i archeb.

Rydym wedi cymryd pob rhagofal rhesymol i sicrhau diogelwch effeithiol ar gyfer y ceffyl a'r machog, felly mae'n rhaid i chi gymryd pob rhagofal rhesymol i osgoi ac atal damweiniau. Mae Coleg Gwent yn cadw'r hawl i dynnu rhywun oddi wrth y cyfleusterau mewn achos marchogaeth peryglus, cam-drin y ceffyl neu fethu â gweithredu â chwrteisi cyffredin. Nid yw Coleg Gwent neu unrhyw berson sydd yn gweithredu ar ran y Coleg yn derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw golled, difrod, damwain, anaf neu salwch i geffylau, marchogion, gwylwyr nac unrhyw bersonau arall neu eiddo o gwbl.

**GDPR**
Defnyddir y wybodaeth ar y ffurflen hon at ddibenion perfformio cytundeb Telerau Llogi'r Ganolfan Geffylau.

Cedwir unrhyw recordiau sy'n gysylltiedig â chi am 7 mlynedd yn unol â pholisi cadw'r coleg.

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae'r coleg yn defnyddio eich data, gan gynnwys pa hawliau sydd gennych chi mewn perthynas â'r defnyddiau hyn, ewch i: https://www.coleggwent.ac.uk/cy/privacy-policy

**Mae gennych chi sawl hawl o ran defnydd eich data.**

**Ymwrthodiad**

Rydwyf i, y tanysgrifiedig, yn cytuno drwy hyn i'r amod defnyddio a rhyddhaf unrhyw atebolrwydd cyfreithiol yn erbyn Coleg Gwent am unrhyw anaf personol neu ddifrod o ganlyniad i ddefnyddio'r Ganolfan Geffylau yng Nghampws Brynbuga neu unrhyw hawliau neu atebolrwydd o gwbl, hysbys neu'n anhysbys, sydd bellach yn bodoli neu a allai fodoli yn y dyfodol, oherwydd neu mewn unrhyw ffordd yn gysylltiedig â, neu'n deillio o, ddefnyddio'r Ganolfan Geffylau.

Cwblhewch y canlynol fel bo'n berthnasol.

| **I'w gwblhau gan Riant / Warcheidwad ar ran Marchogwyr dan 18 oed** | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnodwyd** | | **Dyddiad** | |
| **Enw Llawn (priflythrennau)** | | | |

| **I'w gwblhau gan Farchogwr dros 18 oed** | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnodwyd** | | **Dyddiad** | |
| **Enw Llawn (priflythrennau)** | | | |

| **I'w gwblhau gan Gynrychiolydd Sefydliad** | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnodwyd** | | **Dyddiad** | |
| **Enw Llawn (priflythrennau)** | | | |

**Ffioedd Llogi Mewn Grym o 1 Ionawr 2025**

| **Llogi Fesul Awr** | **Bob Awr (£)** | **Diwrnod Llawn (£) (Rhwng 08:00 – 17:00)** | Mae pob hur yn cynnwys offer neidio a/neu fyrddau a marcwyr dressage. |
|---|---|---|---|
| Arena Dan Do | £35 | £250 | |
| Arena Awyr Agored | £30 | £200 | |
| Cyfuniad o Arena Dan Do Ac Awyr Agored | £60 | £350 | |

Noder y codir ffi lanhau o £25 yr ardal os na chaiff y cyfleusterau eu gadael mewn cyflwr rhesymol lân a thaclus ar ôl eu defnyddio.

Noder bod y sesiynau llogi canlynol yn amodol ar argaeledd.

**Dydd Llun – Dydd Iau**
Mae'r arenâu ar gael i'w llogi rhwng 4.30yp ac 8yh, a rhaid gadael y safle erbyn 8.30yh.

**Dydd Gwener**
Mae'r arenâu ar gael i'w llogi rhwng 4.30yp a 5yh, a rhaid gadael y safle erbyn 6yh.

**Dydd Sadwrn a dydd Sul**
Mae'r arenâu ar gael i'w llogi rhwng 8yb a 5yh.

Y sesiwn olaf ar gyfer llogi fesul awr yw rhwng 4yp a 5yh.

Rhaid gadael y safle erbyn 5.30yp.

Efallai y gellir trefnu amseroedd y tu allan i'r hyn a nodwyd uchod yn dilyn trafodaeth, ond ceir costau ychwanegol.

Efallai y gellir cymhwyso disgownt yn ôl disgresiwn y busnes.